## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at Datganiad ar Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Comisiynydd Plant a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 9 Mawrth 2005

**At Peter Black:**

Ysgrifennaf i fynd ar ôl camau sy'n codi o'r holi ac ateb a gafwyd rhyngom yn sgîl fy ymateb i adroddiad y comisiynydd plant yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mawrth 2005. Ymddiheuraf am yr oedi wrth ymateb, a achoswyd gan amryfusedd gweinyddol. Deallaf mai Anita Naoko Pilgrim sy'n gofyn iti am yr ymateb hwn gan ei bod am ei ddefnyddio yn rhan o ymchwil ar gyfer Achub y Plant i asesu pa isadeiledd sydd yn ei le i fynd i'r afael â bwlio ar sail hil.

Yn y ddadl, gofynasoch

'Yn ail, gwerthfawrogaf y gwaith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â bwlio, ac yr wyf yn ymwybodol y gofynnir i ysgolion gyflwyno copi o'u polisïau gwrth-fwlio, fel y gellir eu hasesu i weld pa mor dda y maent yn cyd-fynd â'r canllawiau. A yw'r asesiad hwnnw yn cynnwys sut y mae'r polisïau hynny yn ymdrin â chofnodi a mynd i'r afael â digwyddiadau hiliol, sy'n digwydd yn aml mewn ysgolion ac a all ddod o dan bennawd bwlio? Mae hynny'n bwysig. Mae Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe wedi cysylltu â mi am ei fod yn anfodlon ar y ffordd y caiff digwyddiadau hiliol eu cofnodi mewn ysgolion. Mae'n bwysig inni fabwysiadu ymagwedd unffurf ledled Cymru tuag at y mater penodol hwnnw.'

Yr oedd y gwaith yr ymgymerodd Prifysgol Caerdydd ag ef ar ein rhan i werthuso polisïau ysgolion rhag bwlio o reidrwydd yn weddol eang yn ei ymagwedd, o ystyried nifer fawr y polisïau yr oedd yn rhaid eu dadansoddi. Yr oedd un elfen o'r gwerthusiad yn ymwneud ag asesu a oedd y polisïau wedi'u diffinio'n ddigonol ac yn cynnwys pob math o fwlio. Byddai'r rhai gafodd y marciau gorau wedi sôn am agweddau ar fwlio ar sail hil a homoffobia, ond nid aseswyd yr elfennau hyn ar wahân.

Yn sgîl gwaith Prifysgol Caerdydd, yr ydym ar hyn o bryd am ddatblygu rhestr wirio i ysgolion werthuso eu hunain i'w cynorthwyo wrth adolygu ac asesu cynlluniau gwrth-fwlio y byddwn yn cynnwys ynddynt yr angen i ystyried gwahanol elfennau, gan gynnwys bwlio ar sail hil. Caiff hyn ei gysylltu â'n pwyslais cryfach ar hunanasesiad o fewn fframwaith arolygu, a bydd Estyn yn parhau yn ei rôl fawr o asesu effeithiolrwydd arferion cynhwysol a pholisïau gwrth fwlio yn ysgolion Cymru.

Mae diffiniad digwyddiadau hiliol yn ehangach o lawer wrth gwrs na bwlio ar sail hil. Diffinnir bwlio'n gyffredinol fel rhywbeth sy'n digwydd ar sawl achlysur, ac mae fel arfer anghydbwysedd grym rhwng y bwli a'r sawl mae'n ei fwlio. Nid yw'r amodau hyn yn gymwys o reidrwydd yn achos digwyddiad hiliol, a all fod rhwng cyfoedion neu grwpiau o gyfoedion, neu a all fod yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun.

O'r herwydd, mae'n rhaid i'n hymagwedd at fynd i'r afael â hiliaeth annog amgylcheddau cynhwysol ymhob sefydliad addysg. Byddwn yn cadarnhau o'r newydd yr ymroddiad hwn yn y canllawiau ar gynhwyso a chefnogi disgyblion i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion a gyhoeddir yn hydref 2006.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau prosiect i ddatblygu strategaeth hollgynhwysol i gefnogi cyrhaeddiad y grwpiau oll o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Bydd gan y strategaeth ymagwedd gyfannol i sicrhau bydd materion sy'n ymwneud â disgyblion o

leiafrifoedd ethnig yn cael eu trin fel rhan annatod o ymagwedd gynhwysol at bolisi addysg yn ei gyfanrwydd. Bydd yn gosod y prif egwyddorion ar gyfer darpariaeth addysg effeithiol i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig.

Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu ac arno ddefnyddwyr allanol—AALlau, prifathrawon, sefydliadau lleiafrifoedd ethnig gwirfoddol a chydweithwyr mewnol allweddol. Mae gan EALAW gynrychiolaeth ar y grŵp. Defnyddir y grŵp llywio fel seinfwrdd ar gyfer y penderfyniadau mawr ynghylch cwmpas a fformat y strategaeth a gofynnir iddo sicrhau safon y strategaeth wrth i wahanol rannau ohoni gael eu datblygu.

I ategu'r strategaeth hon, yr ydym yn datblygu rhagor o ganllawiau at gynorthwyo yn benodol athrawon dosbarth yn y brif ffrwd i addysgu disgyblion o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Bydd y canllaw hwn yn codi ymhellach ymwybyddiaeth AALlau, ysgolion a lleoliadau eraill o anghenion disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Bydd yn dangos y ffyrdd y gall ysgolion roi gwerth ar amrywiaeth ddiwylliannol ac atal hiliaeth drwy'r cwricwlwm, a bydd yn rhoi enghreifftiau o arfer effeithiol o'r ysgolion ac AALlau hynny y mae eu systemau, polisïau ac arferion yn dangos persbectif cynhwysol.

Ymhellach i'r sylw hwn, cymeradwyais yn ddiweddar arian i brynu copïau o DVD Show Racism the Red Card i'w dosbarthu i bob ysgol yng Nghymru. Mae Show Racism the Red Card yn elusen sy'n gweithio i ddileu hiliaeth a chamwahaniaethu o'r ysgolion a'r canolfannau a chlybiau ieuenctid. Mae'r DVD yn cynnwys chwaraewyr o Gymry ac eraill o'r gynghrair bêl-droed gyda rheolwyr, a'r oll yn cyfrannu at gadw hiliaeth rhag gwreiddio yn y gymdeithas yng Nghymru.

Bydd yr adnodd ymarferol i ysgolion hwn yn galluogi athrawon a disgyblion i drafod yn agored faterion sy'n ymwneud â hiliaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r camau positif y gellir eu cymryd i ddathlu amrywiaeth yn ein hysgolion a dileu ymddygiad a enynnir gan hil.

Yn olaf, nid yw Llywodraeth ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth ynghylch hiliaeth mewn ysgolion. Rhaid ystyried a allwn edrych at hyn yn y dyfodol ar y cyd â ffactorau eraill, gan gynnwys ymroddiad y Cynulliad Cenedlaethol i ysgafnhau'r beichiau biwrocratig sydd ar ysgolion.